

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ffenomen newydd yn datblygu – y ‘genhedlaeth frechdan’. Defnyddir y term ‘cenedlaeth frechdan’ yn aml i gyfeirio at y rheini sy’n gofalu am blant ifanc a rhieni hŷn ar yr un pryd.

Mae Mrs Jones yn gofalu am ei mam-yng-nghyfraith sydd â chanser, ei phlentyn hynaf sydd ag ADHD, a’i gŵr sydd mewn poen cronig oherwydd problemau cefn. Nawr, mae ei phlentyn ieuengaf, Sam, yn cael anawsterau emosiynol. Mae’r rhieni’n amau mai gorfod gofalu ar oedran mor ifanc sy’n rhannol gyfrifol am hyn. Mae Sam wedi bod yn teimlo fel lladd ei hun ac mae hyn wedi arwain at ymddygiad pryderus dros ben.

Mae Sam wedi bod yn gofyn am fod oddi cartref am gyfnod, ac mae’r teulu’n credu y bydden nhw’n elwa o ymweld â pherthnasau yn Lloegr; er mwyn hwyluso hyn, anfonais gais am grant o Gronfa’r Teulu.

Mae’r teulu wedi bod â phryderon ariannol gan fod y PIP (y Taliad Annibyniaeth Personol) dan adolygiad; os byddant yn colli elfen Ofalu y PIP, byddan nhw’n colli eu Bathodyn Glas a’u car symudedd. Nid yw Mr Jones yn medru cerdded yn bell, felly ni fyddai’n medru gadael ei gartref. Trefnais i Avalon Advice [gysylltu](#) â’r teulu i’w cynorthwyo gyda’r materion sy’n codi yn sgil yr adolygiad o’r PIP.

Mae Mrs Jones hefyd yn cael problemau gyda’i thŷ; dangosodd luniau i mi o wal ei hystafell wely ym mhen blaen y tŷ a oedd yn ddu â llwydni. Mae Mrs Jones eisiau cyfnewid ei hystafell wely ag ystafell wely Sam gan mai’r ystafell hon yw’r un tawelaf yn y tŷ ac mae’n cael trafferth cysgu ar hyn o bryd gan fod sŵn yn ei chadw ar ddihun yn ystod y nos. Ond, mae Sam yn dioddef o asthma, ac mae un o archwilywyr Eniro-vent wedi dweud wrth y teulu na ddylai Sam symud i’r ystafell wely yn nhu blaen y tŷ “dan unrhyw amgylchiadau”. Nid oes unrhyw beth wedi’i wneud ers yr archwiliad a nawr, mae gan Mr Jones nodylau ar ei ysgyfaint, o bosibl o ganlyniad i anadlu i mewn sborau llwydni. Er mwyn mynd i’r afael â’r broblem llwydni, gofynnais am arolwg technegol o’r eiddo ac archwiliad iechyd a diogelwch. Gwnaeth y gymdeithas tai atgyfeirio’r achos i’r swyddog cynnal a chadw a’i Swyddog Iechyd a Diogelwch.

Byddai cael gwasanaethau ar gyfer rhieni ei gŵr yn lleihau’r straen ar Mrs Jones, ac yn galluogi iddi ganolbwyntio mwy ar ei theulu. Felly, rhoddais fanylion y gwasanaeth cymorth casglu biniau iddi a gwybodaeth am grwpiau cinio lleol i bobl dros 50 oed.

Mae presenoldeb Sam yn yr ysgol yn wael; atgyfeiriais Sam at Brosiect Gofalwyr Ifanc Gwynedd, Gweithredu dros Blant. Mae’r prosiect hwn yn darparu cymorth addysgol ac yn cysylltu ag ysgolion ar ran y teulu. Dywedodd Mrs Jones wrthyf fod Sam wedi mynd i mewn i’w gragen. Mae’r prosiect gofalwyr ifanc yn cynnal grwpiau misol a fydd yn rhoi’r cyfle i Sam gymysgu â gofalwyr ifanc eraill ag anawsterau tebyg gartref. Mae’r grŵp yn caniatáu i ofalwyr ifanc wneud ffrindiau newydd, creu atgofion a chymryd rhan mewn profiadau newydd.